# CYLCHLYTHYR 04.10.24

## Dewch i gwrdd â'r athro!

Ar brynhawn dydd Mawrth, Hydref 8fed am 2:30yp, bydd cyfle i chi ddod i gwrdd ag athro eich plentyn yn y dosbarth. Cewch gyfle i drafod y cwricwlwm sydd ar waith, unrhyw ofynion gwaith cartre', cwrdd â rhieni eraill a phrofi amgylchedd dysgu eich plentyn. Nid oes angen bwcio ar gyfer y digwyddiad yma.

Bydd te a choffi ar gael yn y neuadd, diolch i Ffrindiau Coed-y-Gof.

## Lluniau unigol/teuluol

Bydd cwmni Tempest yn yr ysgol ar ddydd Iau'r 17eg o Hydref ar gyfer tynnu lluniau unigolion a theuluoedd. Os ydych yn dymuno llun gyda brodyr neu chwiorydd nad ydynt yn ddisgyblion Coed-y-Gof, dewch i'r ysgol am 08:40. Diolch.

## Prydau Ysgol am ddim i holl blant Ysgolion Cynradd

Mae bob plentyn ysgol gynradd yng Nghymru nawr yn gallu derbyn prydau ysgol am ddim. Mae'r ymrwymiad hwn mewn ymateb i'r pwysau cynyddol o ran costau byw ar deuluoedd ac uchelgeisiau'r Llywodraeth o fynd i'r afael â thlodi plant a sicrhau nad oes unrhyw blentyn yn mynd heb fwyd yn yr ysgol.

Mae manteision ehangach hefyd i brydau ysgol am ddim, gan gynnwys:

- hyrwyddo bwyta'n iach ar draws yr ysgol
- cynyddu'r amrywiaeth o ddewisiadau bwyd
- gwella sgiliau cymdeithasol amser bwyd
- gwella ymddygiad a chyrhaeddiad

Serch hyn, mae dal yn bwysig i gofrestru eich plentyn am brydau ysgol am ddim wrth lenwi'r ffurflen yma. Bydd hyn yn galluogi'r ysgol i gyfri cyfanswm nifer cynyddol y plant sydd angen prydau bwyd ac i dderbyn cyllid ychwanegol i'r ysgol. Ni fydd hyn yn effeithio ar fudd-daliadau cysylltiedig eraill.

Hyd yn oed os yw'ch plentyn eisoes yn derbyn Prydau Ysgol am ddim, plîs gwiriwch i weld a ydych yn gymwys i gael gafael ar gymorth ehangach. Gallech gael hyd at £200 drwy'r Grant Hanfodion Ysgol a chyllid ychwanegol ar gyfer eich ysgol.

Diolch am eich cydweithrediad.

## Twrnamaint pêl-droed agored yr Urdd



Da iawn i'r ddau dîm aeth i gynrychioli'r ysgol yn nhwrnament @chwaraeonyrurdd . Diolch mawr i'r rhieni am helpu hefyd. Cyd-chwarae gwych!! Rydym yn falch iawn o bob un ohonoch.



# DYDDIADAU PWYSIG

| | |
|---|---|
| 04.10.24 | HMS – Ysgol ar gau i ddisgyblion |
| 07.10.24 | HMS – Ysgol ar gau i ddisgyblion |
| 08.10.24 | Dewch i gwrdd â'r athro! 2:30–3:00 |
| 10.10.24 | Diwrnod Iechyd Meddwl y Byd – plant i wisgo melyn ; 50c i brynu bisged. Elw at elusen Mental Health UK |
| 14.10.24 | Brechliniau ffliw DD – Bl 6 |
| 17.10.24 | Lluniau ysgol unigol a theuluoedd |
| 21.10.24 | Gwasanaeth tân yn ymweld â Bl 5 a Bl 2 |
| 24.10.24 | Disgo Calan Gaeaf – manylion pellach i ddilyn |
| 25.10.24 | HMS clwstwr Plasmawr – Ysgol ar gau i ddisgyblion |
| 28.10–01.11.24 | Gwyliau Hanner Tymor<br>Clwb Bwrlwm yn yr ysgol 28 – 31/10 10:30 – 12:30 |
| 05.11.24 | Twrnament pêl-droed yr Urdd, merched Bl 5&6<br>Twrnament pêl-droed cymysg yr Urdd, Bl 3&4 |
| 08.11.24 | Trip Llysgenhadon yr Ysgol i Techniquest – Hawliau Plant |
| 12.11.24 | Noson Rieni |
| 13.11.24 | Noson Rieni |
| 14.11.24 | Noson Rieni (Ywen yn unig) |
| 14.11.24 | Gwasanaeth goffa Mynwent y Gorllewin, 11yb |
| 15.11.24 | Gwasanaeth deintyddol ysgolion – farnais fflworid DD – bl 2 |
| 03.12.24 | Cyfarfod Llywodraethwyr |
| 12.12.24 | Gwasanaeth Nadolig Bl 3 – 6, Eglwys yr Atgyfodiad, Trelai (gwasanaethau prynhawn a min nos – manylion i ddilyn) |
| 20.12.24 | Diwedd tymor |
| 23.12–06.01.25 | Gwyliau Nadolig |
| 06.01.25 | HMS Ysgol ar gau i ddisgyblion |
| 16.01.25 | Twrnament pêl-rwyd cymysg bl 5 & 6 yr Urdd |